Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Tywyn
Ffordd yr Orsaf
Tywyn
Gwynedd
LL36 9EU

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1:** **Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2:** **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3:** **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 16 oed yw Ysgol Uwchradd Tywyn, a gynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr wedi gostwng yn sylweddol ers yr arolygiad diwethaf ac mae 297 ohonynt ar hyn o bryd. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yng nghyllideb yr ysgol a newidiadau sylweddol o ran staffio.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ger yr orsaf yn nhref glan y môr Tywyn. Daw tua dau o bob tri o'r disgyblion o ddalgylch yr ysgol, sy'n cynnwys Tywyn ei hun a'r pentrefi gwledig a'r ardaloedd cyfagos. Daw'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion o ardaloedd nad ydynt yn ffyniannus na than anfantais yn gymdeithasol neu'n economaidd. Mae naw y cant o'r disgyblion wedi'u cofrestru yn ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim; mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol.

Daw tua 25% o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith ac mae 60% o ddisgyblion yn dilyn gwersi mewn Cymraeg mamiaith. Prif gyfrwng addysg yr ysgol yw Saesneg ond mae nifer o bynciau yn cynnig addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Penodwyd y pennaeth dros dro yn 2009. Mae ganddi ddau bennaeth cynorthwyol hefyd, a dyma yw'r uwch dîm rheoli.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Tywyn yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,843 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yng Ngwynedd yw £5,098 a'r isafswm yw £3,942. Mae Ysgol Uwchradd Tywyn yn bedwerydd o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- perfformiad disgyblion mewn lleiafrif o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4;
- addysgu cynlluniedig ac effeithiol mewn mwyafrif o wersi;
- gofal a chymorth da ar gyfer disgyblion, sy'n cyfrannu'n dda at eu lles a datblygiad eu medrau personol a chymdeithasol;
- ystod eang o weithgareddau allgyrsiol;
- ymddygiad da ac agweddau adeiladol y disgyblion at ddysgu; a
- chydweithio effeithiol gyda phartneriaid eraill i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad yn ddigonol ar y cyfan oherwydd:

- bod perfformiad mewn dangosyddion sy'n cynnwys mathemateg a Chymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn gyson is nag ydyw mewn ysgolion tebyg;
- nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol o ran datblygu eu gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg; ac
- nid yw'r cynllun datblygu ysgol gyfan yn canolbwyntio ar flaenoriaethau pwysicaf yr ysgol yn ddigonol.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod rheolwyr ar bob lefel yn cynnal dadansoddiad trylwyr o ddata sy'n nodi cryfderau a gwendidau ym mherfformiad disgyblion yn gywir;
- bod gan yr ysgol ystod briodol o weithdrefnau ar gyfer monitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu;
- bod y pennaeth dros dro, mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr yr awdurdod lleol, wedi dechrau mynd i'r afael â meysydd pwysig y mae angen eu gwella;
- bod partneriaethau sefydledig sy'n cyfrannu'n effeithiol at gynnydd a lles academaidd disgyblion; a
- bod y corff llywodraethol yn cael ei hysbysu'n dda ac yn cyflawni ei rôl fel ffrind beirniadol yn dda.

Fodd bynnag:

- nid yw cynllunio ysgol gyfan ac adrannol yn canolbwyntio'n ddigon craff ar feysydd pwysig, ac nid yw targedau ar gyfer gwella ym mherfformiad disgyblion yn ddigon mesuradwy;
- nid oes gan yr ysgol hanes llwyddiannus o ysgogi gwelliannau mewn safonau; ac
- nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r holl argymhellion o'r adroddiad adran 28 blaenorol yn llawn.

## Argymhellion

Mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Tywyn:

A1 wella perfformiad mewn mathemateg ar draws y ddau gyfnod allweddol, a throthwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg;

A2 codi safonau mewn Cymraeg mamiaith a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol ac mewn gwersi;

A3 cynyddu'r gyfran o addysgu da a rhagorol ar draws yr ysgol a rhannu arfer dda mewn asesu ar draws pob pwnc;

A4 cryfhau'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella; a

A5 gwneud yn siŵr bod cynllunio datblygiad, ar lefel ysgol gyfan ac adrannol, yn canolbwyntio'n briodol ar wella safonau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn y dangosydd sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella yn y tair blynedd diwethaf, ac mae'n debyg i'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw perfformiad mewn Cymraeg mamiaith a mathemateg mor gryf ag ydyw mewn pynciau craidd eraill.

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 mewn dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ac uwchlaw'r cyfartaledd o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae canlyniadau mathemateg yn gyson islaw canlyniadau ysgolion tebyg, ac mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith wedi gostwng yn sylweddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf. O ganlyniad, mae perfformiad mewn dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg islaw'r cyfartaledd o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4, mewn dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau. Fodd bynnag, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl mewn dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg. Nid yw merched yn perfformio cystal â bechgyn yn y dangosyddion hyn, yn bennaf oherwydd perfformiad gwael mewn mathemateg. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 3, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda, ac yn 2011 fe wnaethant berfformio'n well na'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni yn unol â'u galluoedd.

Ni adawodd unrhyw ddisgybl yr ysgol heb gymhwyster yn y ddwy flynedd ddiwethaf; mae cyfran uchel yn aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed. Yn 2011, ni adroddwyd bod unrhyw ddisgyblion yr ysgol yn 16 oed ddim mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i weithio ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w hathrawon. Maent yn gweithio'n gynhyrchiol â'i gilydd mewn parau neu grwpiau bach. Mewn llawer o ddosbarthiadau, maent yn galw cysyniadau a syniadau i gof o wersi blaenorol yn dda ac yn adeiladu ar hyn yn effeithiol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd a'u hathrawon. Wrth siarad Saesneg, mae llawer ohonynt yn hyderus a rhugl. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, nid yw disgyblion yn meddu ar eirfa ddigon eang i'w galluogi i gyfleu syniadau cymhleth yn glir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen testunau Saesneg gyda lefel dda o rugldder a chywirdeb. Mewn llawer o bynciau, maent yn ysgrifennu'n effeithiol at ystod o wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Maent yn llunio atebion estynedig ac yn gwneud defnydd da o eirfa bynciol benodol. Fodd bynnag, mae camgymeriadau sillafu a gramadegol yng ngwaith ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall Cymraeg llafar yn dda ac mae lleiafrif ohonynt yn ei siarad yn rhugl. Fodd bynnag, mewn dosbarthiadau a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn dewis trafod eu hatebion yn Saesneg. Mae hyn yn cyfyngu eu cynnydd wrth ddatblygu rhugldder a'u gallu i gyflawni'n dda mewn agweddau ar arholiadau Cymraeg. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn ysgrifennu cystal yn Gymraeg ac y maent yn Saesneg.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn ystyriol i dasgau a osodir gan eu hathrawon a gallant bwyso a mesur ystod o dystiolaeth i lunio barnau gwybodus. Mewn lleiafrif o bynciau, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, ac maent yn gosod targedau defnyddiol i wella eu medrau. Mewn rhai gwersi, nid oes gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddigon da o rifedd sylfaenol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac maent yn hyderus fod yr ysgol yn delio â bwlio yn effeithiol ac yn brydlon. Mae disgyblion yn ystyriol a chwrtais ac maent yn pryderu'n ddiffuant am ei gilydd. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol iawn tuag at weithgarwch corfforol ac mae bron pob un ohonynt yn ymwybodol o fanteision bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae nifer fawr ohonynt yn cymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau a gynigir gan yr ysgol, sy'n cynnwys timau hoci bechgyn a merched llwyddiannus a'r fenter 5x60.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi gwella, ac mae'n golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg erbyn hyn o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae'r cyngor ysgol wedi cyfrannu at welliannau i amgylchedd yr ysgol a newidiadau i'r wisg ysgol. Fodd bynnag, nid oes gan ddisgyblion rôl ddigon llawn mewn dylanwadu ar bolisïau'r ysgol.

Mae ymddygiad yn dda. Mae disgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn barod i weithio. Caiff llawer o ddisgyblion eu cynnwys yn weithredol mewn prosiectau cymunedol fel helpu i wella amgylchedd yr orsaf drenau leol. Maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau elusennol, gan gaffael medrau gwerthfawr sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd a gwaith.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol ac yn bodloni gofynion statudol. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n addas ar y gwaith sy'n cael ei gwblhau yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 3, rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion ddilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol mewn cydweithrediad ag ysgolion eraill a choleg addysg bellach lleol. Mae ehangu cyrsiau galwedigaethol wedi cyfrannu at welliannau mewn deilliannau yn nhrothwy lefel 2. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn darparu ystod dda o bynciau a chyrsiau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg. Er gwaethaf hyn, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dewis sefyll eu harholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau ar draws y cwricwlwm yn briodol ar y cyfan. Mae athrawon yn cynllunio'n addas i ddatblygu medrau disgyblion, yn enwedig llythrennedd, o fewn eu pynciau. Mae wythnos o weithgareddau ymarferol ysgogol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 yn datblygu eu medrau cyfathrebu a meddwl yn llwyddiannus. Mae cyflwyno Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau cyfathrebu a rhif disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion ag oedran darllen isel pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol.

Mae darpariaeth dda ar gyfer Cymraeg yn y cwricwlwm, ac mae mwyafrif y disgyblion yn ennill cymhwyster mamiaith yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd boddhaol i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig.

Rhoddir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r angen am ddatblygiad cynaliadwy. Cynigir darpariaeth briodol i alluogi disgyblion i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan athrawon berthynas waith dda gyda disgyblion bron ym mhob gwers.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n dda ac yn sicrhau rhediad bywiog. Yn aml, maent yn dechrau gyda gweithgareddau dechreuol ysgogol ac yn darparu ystod eang o dasgau diddorol. Maent yn defnyddio cwestiynau penagored yn fedrus, i annog disgyblion i roi atebion estynedig. Mae cydbwysedd da rhwng gwaith wedi'i arwain gan yr athro a gweithgareddau lle mae disgyblion yn gweithio ar eu pen eu hunain neu mewn parau. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall y meini prawf ar gyfer gwaith da ac yn darparu cyfleoedd cadarn i atgyfnerthu cysyniadau allweddol. Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn cynllunio gwaith cynorthwywyr cymorth yn dda.

Mewn lleiafrif o wersi, gwelir enghreifftiau da o addysgu sy'n datblygu medrau disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Fodd bynnag, mewn dosbarthiadau a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg, nid yw lleiafrif o athrawon yn annog disgyblion i ddarparu atebion mewn Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Nid yw lleiafrif o wersi yn darparu ar gyfer yr ystod gallu llawn. Nid ydynt yn cynnig her, ac maent yn symud yn araf. Mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn esbonio ac yn ymarfer cysyniadau yn ddigonol ac nid ydynt yn gwirio dealltwriaeth disgyblion yn ddigon rheolaidd.

Mae ansawdd y marcio yn amrywio gormod rhwng gwahanol bynciau. Mae llawer o athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd ac mae mwyafrif ohonynt yn rhoi sylwadau defnyddiol i helpu disgyblion i wella. Fodd bynnag, dim ond rhai ohonynt sy'n gwneud yn siŵr bod disgyblion wedi gweithredu yn unol â'u cyngor. Mewn rhai achosion, mae'r marcio yn arwynebol ac anghyflawn, ac nid yw'n cynnig cyngor defnyddiol i ddisgyblion. Mewn lleiafrif o bynciau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Fodd bynnag, nid yw arfer dda mewn meysydd fel Saesneg a gwyddoniaeth wedi cael ei mabwysiadu'n ddigon cyson mewn pynciau eraill.

Mae gan yr ysgol system briodol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn nodi gwahaniaethau ym mherfformiad grwpiau penodol o ddisgyblion ac unigolion. Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth ddefnyddiol am gynnydd eu plant mewn cyfarfodydd rhieni ac adroddiadau ddwywaith y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar ac yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol, iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae ystod eang o wasanaethau arbenigol yn gweithio'n llwyddiannus i fodloni anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion. Mae anogwyr dysgu'n rhoi cymorth emosiynol ac addysgol gwerthfawr i ddisgyblion ar draws pob ystod oedran. Maent yn rhoi cyngor buddiol ar ddewisiadau gyrfa ac opsiynau hefyd.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i bob disgybl archwilio materion moesol a chymdeithasol. Mae gwasanaethau a sesiynau tiwtor yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion yn effeithiol. Mae systemau priodol i hyrwyddo a gwobrwyo ymddygiad da. Mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o strategaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb.

Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynnwys ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn nodi anghenion y disgyblion hyn yn gyflym ac yn rhoi ymyrraeth a chymorth priodol. Caiff athrawon wybodaeth ddefnyddiol am oedrannau darllen disgyblion, ynghyd â chynlluniau addysg unigol priodol. Mae llawer o athrawon yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth hon yn eu haddysgu a'u cynllunio. Mae prosesau effeithiol ar waith i adolygu cynnydd disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Rhoddir cyfle cyfartal i bob disgybl elwa ar yr holl weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol. Mae'r ysgol yn delio'n dda ag achosion prin o ymddygiad gormesol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos cynhwysol ac yn herio llawer o agweddau ystrydebol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'n herio agweddau negyddol llawer o ddisgyblion tuag at siarad Cymraeg yn ddigon da.

Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal yn dda iawn ac maent yn lân iawn. Mae modd i ddisgyblion ac oedolion ag anableddau fynd o gwmpas y safle yn hwylus.

Mae adnoddau da yn yr ysgol, yn enwedig ar gyfer cerddoriaeth, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chwaraeon. Mae digon o le ar gyfer y niferoedd ar y gofrestr.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth dros dro, gyda chefnogaeth dda gan yr uwch dîm, yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer gwaith yr ysgol. Mae hi wedi arwain yr ysgol yn llwyddiannus trwy gyfnod anodd iawn, pan fu'n rhaid gwneud penderfyniadau sensitif o ganlyniad i ostyngiad difrifol yn y gyllideb. Mae hi hefyd wedi cymryd camau cadarn i fynd i'r afael â diffygion mewn un rhan o'r ysgol.

Mae cyfathrebu da rhwng uwch reolwyr a gweddill y staff, trwy gyswllt rheolaidd a rhaglen drylwyr o gyfarfodydd sy'n canolbwyntio'n briodol ar agweddau ar wella a rheoli'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau'n dda ac mae'r rhan fwyaf o reolwyr canol yn darparu arweinyddiaeth dda. Mae rheolwyr yn defnyddio data'n dda i nodi cryfderau a gwendidau ym mherfformiad yr ysgol ac olrhain cynnydd disgyblion hefyd. Mae uwch reolwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae prosesau rheoli perfformiad yn briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o dargedau dilynol yn cynnwys ffocws digonol neu'n briodol fesuradwy.

Caiff corff llywodraethol yr ysgol ei hysbysu'n dda am berfformiad yr ysgol a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Mae ganddynt gyfrifoldebau priodol a chysylltiadau da ag adrannau sy'n cynnwys ymweld â gwersi. Maent yn cynnig lefel addas o her i'r ysgol ac mae ganddynt rôl weithgar mewn cynghori ar bolisïau.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â llawer o flaenoriaethau yn dda, er enghraifft trwy gydweithio i ehangu'r ystod o opsiynau yng nghyfnod allweddol 4, hyrwyddo cynaliadwyedd a chanolbwyntio ar wella llythrennedd disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn ddogfen drylwyr iawn, sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn onest. Mae dadansoddiad manwl o ddata i gymharu perfformiad yr ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn briodol.

Mae arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion wedi sicrhau gwybodaeth dda am yr hyn sy'n digwydd mewn ystafelloedd dosbarth. Mae uwch reolwyr wedi mireinio eu medrau arfarnu trwy gynnal arsylwadau gwersi ar y cyd ag ymgynghorwyr yr awdurdod lleol. Mae holiaduron ar gyfer rhieni a disgyblion wedi cyfrannu at hunanarfarnu ond nid ydynt yn nodwedd reolaidd a systematig eto.

Mae hunanarfarniadau adrannol yn amrywio o ran eu hansawdd ond mae'r mwyafrif ohonynt yn dda ac yn cynnwys dadansoddiad cadarn o ddata perfformiad. Maent yn dilyn agweddau dethol ar fframwaith Estyn yn briodol, er nad oes unrhyw gyfeiriad at ddatblygu'r iaith Gymraeg neu ymdriniaeth â'r dimensiwn Cymreig. Mae hyn yn ddiffyg, yn enwedig o ystyried bod adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn nodi bod hwn yn faes i'w ddatblygu ymhellach. Mae llawer ohonynt yn nodi meysydd i'w gwella.

Er bod hunanarfarnu'n dda ar y cyfan, nid yw'r cynllunio gwelliant dilynol wedi'i ddatblygu cystal ac nid yw wedi'i gysylltu'n glir â hunanarfarnu bob amser. Mae'r cynllun datblygu ysgol gyfan yn cynnwys nodweddion defnyddiol ond nid yw'n pwysleisio blaenoriaethau pwysicaf yr ysgol yn ddigonol. Nid yw'n cynnwys digon o fanylion bob amser, nid yw'n cynnwys ffocws digon craff, ac nid yw'n cynnwys targedau mesuradwy ar gyfer perfformiad disgyblion. Nid yw'n darparu digon o feini prawf llwyddiant i fesur deilliannau ychwaith.

Mae ansawdd cynlluniau datblygu adrannau yn amrywio. Mae llawer ohonynt yn amlinellu camau clir sydd wedi'u cynllunio'n dda ac yn fesuradwy, ond nid ydynt yn cynnwys targedau addas ar gyfer arholiadau ar y cyfan. Nid yw lleiafrif ohonynt yn ddigon manwl, ac nid ydynt yn mynd i'r afael â materion a nodwyd yn hunanarfarniad yr adran yn ddigonol.

Mae ymglymiad da mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol. Mae pob un o'r staff yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi gyda'r nos, tra bod grŵp dylanwadol gydag aelodau o sawl adran wahanol yn edrych ar ystod o faterion yn ymwneud ag arfer ystafell ddosbarth. Mae adrannau bach yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i rannu syniadau i wella dysgu. Mae arfer dda mewn hyrwyddo llythrennedd wedi cael ei lledaenu ar draws adrannau. Sefydlwyd wythnos fedrau lwyddiannus ar gyfer Blwyddyn 7 gan grŵp o athrawon.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r mwyafrif o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw wedi cael digon o lwyddiant â'r ddau argymhelliad am safonau mewn Cymraeg a defnyddio'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd lleol a Choleg Meirion Dwyfor. Caiff y cysylltiadau hyn effaith gadarnhaol ar brofiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, lle mae'r ystod o bynciau a chyrsiau galwedigaethol wedi cynyddu'n sylweddol. Mae trefniadau da ar waith i sicrhau cysondeb yn ansawdd y cyrsiau partneriaeth hyn. Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y datblygiadau hyn yn eu lle, er bod llai o staff addysgu yn sgil gostyngiad yn niferoedd y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo i sicrhau cyfnod pontio didrafferth i ddisgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Mae cysylltiadau boddhaol gyda rhieni, yn bennaf trwy gymdeithas rhieni ac athrawon weithgar a chylchlythyr. Mae niferoedd da yn mynychu nosweithiau rhieni i drafod cynnydd eu plant. Mae partneriaethau gydag asiantaethau a gwasanaethau arbenigol fel yr heddlu, y gwasanaeth tân, a'r gwasanaeth seicolegol i ysgolion yn dda ar y cyfan. Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau bod ystod eang o gymorth effeithiol ar gael i'r ysgol.

Mae cysylltiadau cadarnhaol gyda busnesau lleol, ac mae'r rhain yn aml yn arwain at leoliadau profiad gwaith gwerthfawr i ddisgyblion. Mae gan yr ysgol bartneriaeth weithgar a llwyddiannus gyda'r darparwr hyfforddiant i athrawon lleol hefyd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff i addysgu'r cwricwlwm, er mai dim ond tua hanner o'r staff sy'n medru'r Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn addysgu eu prif bwnc neu bwnc atodol. Rhoddir hyfforddiant a chymorth priodol i'r rhai sy'n addysgu pwnc ar wahân i'w harbenigedd.

Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd y disgyblion yn y blynyddoedd diwethaf, gyda gostyngiad yng nghyllideb yr ysgol yn arwain at ddiswyddo staff er 2009. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r ysgol wedi cynnal cwricwlwm eang a chytbwys yn llwyddiannus.

Defnyddir rheoli perfformiad yn briodol i nodi anghenion hyfforddi staff, a rhoddir cyfleoedd da i staff fynychu cyrsiau perthnasol.

Mae rheolaeth ariannol yn effeithiol ac mae'r corff llywodraethol yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwariant. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i argymhellion archwilio. Fodd bynnag, gan fod deilliannau disgyblion yn ddigonol, mae gwerth am arian yn ddigonol ar y cyfan.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi bod islaw cyfartaledd y teulu am y ddwy flynedd ddiwethaf ac yn y chwarter gwaelod neu hanner is y chwarter ar gyfer ysgolion tebyg yn seiliedig ar feincnodau prydau ysgol am ddim am y pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith a mathemateg yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2011, roedd perfformiad mewn gwyddoniaeth a Saesneg yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.

Mewn Cymraeg mamiaith a mathemateg, mae perfformiad ar lefel 6 yn is na chyfartaleddau'r teulu ac yn y chwarter gwaelod o lefelau perfformiad ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Yn 2011, roedd perfformiad ar lefel 6 mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn well na chyfartaledd y teulu ac yn y chwarter uchaf o lefelau perfformiad ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn y tair blynedd cyn hyn, roedd perfformiad ar lefel 6 mewn Saesneg yn y chwarter gwaelod neu'r hanner is o lefelau mewn ysgolion tebyg. Mae cyfran uchel o ddisgyblion yn cyflawni lefel 7 mewn Saesneg a gwyddoniaeth, ond mewn mathemateg a Chymraeg mamiaith, mae'r gyfran hon yn is na chyfartaleddau'r teulu.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae safonau llafaredd, darllen ac ysgrifennu mewn Saesneg wedi amrywio yn y pedair blynedd diwethaf, ond roeddent yn well na chyfartaleddau'r teulu yn 2011. Mewn Cymraeg mamiaith, mae safonau llafaredd, darllen ac ysgrifennu gryn dipyn yn is na chyfartaleddau'r teulu dros yr un cyfnod.

O gymharu â'u perfformiad yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn gwneud cynnydd da mewn gwyddoniaeth, cynnydd boddhaol mewn Saesneg, ond nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd mewn mathemateg na Chymraeg mamiaith.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd a throthwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg wedi bod yn y chwarter gwaelod neu'r hanner gwaelod yn gyson o gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf. Yn 2011, roedd perfformiad yn y dangosyddion hyn yn is na chyfartaleddau ar gyfer Cymru a'r awdurdod lleol, a chryn dipyn yn is na chyfartaleddau'r teulu a disgwyliadau wedi'u modelu.

Er 2008, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi gwella'n gyson. Yn 2011, roedd y perfformiad hwn yn well na chyfartaleddau'r teulu a'r awdurdod lleol, ac yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio wedi gwella'n dda ac wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Mae perfformiad mewn Saesneg lefel 2 wedi amrywio er 2008 ac mae'n uwch na chyfartaledd y teulu ar y cyfan. Fodd bynnag, yn 2011, bu gostyngiad pendant mewn perfformiad, a oedd yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter gwaelod o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.

Mewn Cymraeg mamiaith, mae perfformiad ar lefel 2 wedi gostwng yn sylweddol yn y tair blynedd diwethaf, ac mae islaw cyfartaledd y teulu yn gyson. Yn 2011, roedd perfformiad yn y chwarter gwaelod o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yn dda ar y cyfan.

Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 yn anfoddhaol. Mae wedi amrywio er 2008 ond mae'n is na chyfartaledd y teulu ar y cyfan ac yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter gwaelod o ran meincnodau prydau ysgol am ddim am y pedair blynedd diwethaf.

Bu gwelliant mewn gwyddoniaeth ar lefel 2 yn 2011 ac roedd uwchlaw cyfartaledd y teulu am y tro cyntaf yn y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, o ran meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad dros yr un cyfnod wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner is am dair blynedd ac yn y chwarter gwaelod am un o'r blynyddoedd un.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi amrywio yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yn 2011, roedd yn debyg i gyfartaledd y teulu ac yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae bechgyn yn perfformio'n waeth na merched bron ym mhob dangosydd, ac mae'r gwahaniaethau hyn yn fwy na chyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae merched wedi tanberfformio yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, y dangosydd pwnc craidd a mathemateg. Mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith ar lefel 2, mae bechgyn yn perfformio cryn dipyn yn waeth na merched ac mae'r gwahaniaeth yn fwy na chyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.

Nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg neu'r dangosydd pwnc craidd o gymharu â'u perfformiad mewn cyfnodau allweddol blaenorol. Fodd bynnag, maent yn gwneud cynnydd da yn nhrothwy lefel 2.

Ni adawodd unrhyw ddisgybl yr ysgol heb gymhwyster yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r perfformiad hwn yn well na chyfartaleddau ar gyfer Cymru, yr awdurdod lleol a'r teulu. Ychydig iawn o wahaniaeth sydd mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr**

Cafodd Estyn ymatebion gan 87 o ddysgwyr, a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran.

Dywed bron pob un o'r dysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi bod ganddynt rywun i droi ato os bydd ganddynt unrhyw bryderon ac maent yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion fod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio a bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Roedd llawer o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn eu trin yn deg ac yn eu parchu, a dywed y rhan fwyaf ohonynt fod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn credu eu bod yn gwneud yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer, ac mae mwyafrif ohonynt yn teimlo bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Dywed llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 y cawsant gyngor da wrth ddewis eu cyrsiau a'u bod yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth. Dywed llawer o ddisgyblion fod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach, ac mae bron pob un ohonynt yn nodi bod digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod yr ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i'w safbwyntiau, a dywed llawer ohonynt fod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion hyn yn cymharu'n ffafriol â safbwyntiau disgyblion mewn ysgolion uwchradd eraill.

**Ymatebion i'r holiaduron i rieni**

Cafodd Estyn 47 o ymatebion i'r holiadur i rieni. At ei gilydd, roedd yr ymatebion yn llai cadarnhaol nag ymatebion gan ysgolion eraill.

Mae llawer o rieni'n fodlon â'r ysgol ac yn dweud ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod eu plant yn ddiogel, a dywed llawer ohonynt fod eu plant yn hoffi'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n nodi bod eu plant wedi cael cymorth i ymgynefino'n dda pan ddechreuon nhw yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn credu bod ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, a'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach. Mae llawer o rieni'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol i drafod materion am addysg a lles eu plentyn. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n credu bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Maent yn ystyried bod disgwyliadau staff yn dda, ac mae llawer ohonynt yn credu bod gwaith cartref yn atgyfnerthu'r dysgu. Mae llawer o rieni'n nodi bod addysgu'n dda a bod staff yn cefnogi eu plant yn dda. Teimla llawer ohonynt fod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg. Teimla mwyafrif o rieni y cânt eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant ac maent yn credu bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn eu parchu. Mae mwyafrif ohonynt hefyd yn credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ceri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Steffan James | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Geoffrey Howell | Arolygydd Cymheiriaid |
| John Schofield | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |